

TRANSCRIPT OF VIDEO (WELSH LANGUAGE VERSION)

<https://www.bbc.co.uk/teach/young-reporter/lesson-6-organising-and-producing-news-for-broadcast/z4vxdp3>

Croeso nol. Dyma ni yng Nghanolfan Deledu'r BBC yn Llundain – fan hyn mae'r cam olaf o'r broses newyddion yn digwydd – sef y darlledu.

Nawr bod chi wedi creu'r adroddiadau – mae'n bryd eu dangos i bawb arall hefyd.

Yma'n y BBC, ry'n ni'n trefnu adroddiadau teledu a radio yn rhaglenni neu fwletinau newyddion, ac fe allwch chi wneud yr un peth.

Yn gyntaf rhaid i chi osod eich straeon yn y drefn fydd yn apelio at y gynulleidfa.

Mae'r straeon yn cael eu rhoi mewn trefn – TREFN DDARLLEDU – gyda'r stori flaen ar ben y rhestr ac un ysgafn neu ddoniol ar y diwedd.

Gyda lwc, bydd hyn o ddiddordeb i'ch cynulleidfa ac yn eu cadw i wyllo a gwrandao o'r dechrau i'r diwedd. Dyna'r nod.

Unwaith byddwch chi wedi gwneud y penderfyniadau pwysig hyn, mae'n bryd i chi rannu neu ddarlledu'r newyddion.

Gwnewch yn siwr fod yr holl gyflwyniadau yn eu trefn, a phopeth wedi ei sillafu a'i atalnodi'n gywir.

Cofiwch, nid rhywbeth ffansi yw gramadeg cywir – mae'n gwbl hanfodol.

Ar ol i chi wneud hyn i gyd fe allwch chi ysgrifennu'r penawdau.

Mae newyddiadurwyr y BBC yn aml iawn yn ysgrifennu'r rhain ar ôl popeth arall – er mwyn cael syniad da o'r cynnwys.

Dyma un o'r tasgiau gorau i fi – penawdau bachog sy'n dal sylw'r gynulleidfa. Cadwch nhw'n fyr ac yn gynnwl – ac fe allwch chi chwarae ar eiriau i gadw'r gynulleidfa i ddyfalu.

Yn y BBC ry'n ni'n darlledu'n bwletinau'n fyw o stiwdio fel hon – i filiynau o wylwyr. Gallwch chi rannu eich newyddion yn fyw drwy ei ddarllen – neu ddangos adroddiadau ar fideo, o flaen eich dosbarth, neu i'r holl ysgol. Efallai byddwch chi'n gallu ei ddangos yn fyw ar wefan eich ysgol.

Does dim gwahaniaeth os ydydch chi'n gwneud hyn – neu recordio – y cam olaf fydd rhannu eich newyddion drwy ei lwytho lan ar wefan eich ysgol.

Beth bynnag wnewch chi, bydd y cyflwynydd angen amser i gyfarwyddo a'r sgriptiau cyn eu darllen o flaen pawb arall.

Ac yna meddyliwch shwd byddwch chi'n cael mwy o gynulleidfa i'r newyddion.

Oes modd i chi ga'l rhagor o bobl i wyllo drwy e-bostio ffrindiau, teulu neu ysgolion eraill?

Beth am hysbysebu eich bwletin newyddion drwy roi posteri o gwmpas yr ardal?

Os ydych chi wedi ysgrifennu adroddiadau ar-lein, mae'n syniad i chi i'w trefnu fel bod y rhai pwysicaf neu mwyaf diddorol yn sefyll mäs.

Ewch ar wefan Newyddion y BBC i gael ambell syniad sut mae gosod y stori flaen ar y dudalen ac i wneud argraff.

Ewch dros bopeth unwaith eto cyn gorffen.

Ydy'r sillafu yn gywir? Ydy'r sgriptiau'n iawn? Gofynnwch i rywun arall edrych ar y cyfan. Mae dau ben yn well nag un – i ganfod camgymeriad.

Yma yn y BBC, gan olygydd y rhaglen y mae'r gair olaf. Mae'n gryn gyfrifoldeb, ond mae'n golygu fod yna rywun sydd yno i wneud penderfyniadau.

Cofiwch am Werthoedd y BBC; gofalu fod popeth yn gywir, yn deg a chytbwys, ac na fyddwch chi wedi rhoi unrhyw un mewn perygl.

Er mwyn diogelu rhai sydd dan ddeunaw oed, defnyddiwch eu henwayu cyntaf yn unig.

Ar gyfer School Report – Bwletin Ysgol Newyddion y BBC – fe hoffen ni weld eich straeon ar wefan yr ysgol.

Unwaith byddwch chi wedi gwneud hynny – fe allwn ni roi dolen i gysylltu â nhw ar ein gwefan no – sef Bwletin Ysgol Newyddion BBC.

Bydd angen i chi hefyd gadw cysylltiad â phwy bynnag sy'n rhedeg gwefan eich ysgol i sichrau bod pethe yn gweithio'n iawn.

Mae paratoi'r newyddion yn sialens, ond mae'n dipyn o hwyl hefyd. Felly mwynhewch y dasg – a phob lwch i chi gyd.